# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf 2014-2015

Rheolwr Perthynas: Ruth Studley
Ffôn: 0300 062 8382

## Diben




Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei rôl yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgareddau yn y bwrdd iechyd hwn a byrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill fel a ganlyn:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn gwella
- Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth glir ac amserol am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei gynhyrchu gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgarwch arolygu a gynhaliwyd gennym rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Fel y cyfryw, nid yw'r adroddiad hwn yn asesiad cyffredinol o'r bwrdd iechyd cyfan. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r arolygiadau rydym wedi eu cynnal o gontractwyr annibynnol megis deintyddion yn ardal Cwm Taf. Hefyd, mae crynodeb yn yr adroddiad o'r darparwyr gofal iechyd annibynnol yn ardal Cwm Taf, ond nodwn na all Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gomisiynu gwasanaethau gan y sefydliadau hyn.

## Trosolwg

Yn ystod 2014-2015, gwnaeth rhaglen arolygu AGIC ganolbwyntio ar gael cwmpas eang ar draws y GIG, yn ôl math o leoliad ac arbenigedd. Yn ystod y flwyddyn, mae AGIC wedi ymweld â 38 lleoliad yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, sy'n cynnwys chwe arolygiad urddas a gofal hanfodol, 13 arolygiad deintyddol, 11 arolygiad meddyg teulu, pedwar ymweliad Deddf Iechyd Meddwl, un arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), a thri adolygiad gan gymheiriaid.

Yn y sector annibynnol, mae AGIC wedi cynnal 12 ymweliad yn ardal Cwm Taf. Roedd y rhain yn cynnwys chwe ymweliad Deddf Iechyd Meddwl, pum arolygiad uned iechyd meddwl, ac un clinig colli pwysau.

## Themâu Allweddol

Nodwyd y themâu allweddol canlynol yn ystod ein harolygiadau yn ystod 2014-2015. Ym mhob achos, rydym wedi cael ymatebion digonol yn nodi bod y problemau wedi cael eu datrys.

- Mae heriau a galw cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio wedi bod yn amlwg ym mhob un o'r arolygiadau urddas a gofal hanfodol. Yn benodol, mae pob ward yr ymwelwyd â nhw wedi cynnwys niferoedd sylweddol o unigolion oedrannus eiddil y mae eu hanghenion yn ansefydlog a chymhleth. Mae hyn ni waeth beth yw 'arbenigedd' penodol pob ardal ysbyty sydd wedi bod yn destun arolygiad.
- Dangosodd pob arolygiad urddas a gofal hanfodol a gynhaliwyd nad oedd cofnodion cleifion yn dynodi bod y timau ar y wardiau'n asesu lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn rheolaidd er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol. (1, 2, 3, 4, 5, 6)
- Roedd pob arolygiad urddas a gofal hanfodol yn dangos tystiolaeth nad oedd cleifion yn cael asesiadau iechyd meddwl rheolaidd ochr yn ochr â'u hasesiadau iechyd cyffredinol wedi iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty. (1, 2, 3, 4, 5, 6)
- Roedd gofynion eang i'r arolygiadau deintyddol, ond un thema gyson oedd yr angen i sicrhau bod gweithdrefnau cwyno lleol yn cyd-fynd â Gweithio i Wella. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith mai contractwyr annibynnol yw'r rhain. (18, 19, 20, 21, 23, 24, 25, 26, 28, 30)
- Roedd dogfennau'n ymwneud ag ymweliadau Deddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio gan mwyaf heblaw am ambell i eithriad allweddol. Ymdriniwyd â'r rhain yn syth. Fodd bynnag, amlygodd ymweliadau ag Ysbyty George Thomas ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg ddewis sâl o fwyd i'r cleifion hynny sy'n aros am gyfnod hwy na phythefnos, sef cyfnod cylch y fwydlen. (31, 32, 33, 34)
- Amlygodd ymweliadau uned iechyd meddwl nifer o broblemau rheoleiddiol o ran y gofal iechyd annibynnol a ddarperir yn y rhanbarth. Y thema gyffredin oedd nad oedd cyffuriau a reolir yn cael eu rheoli'n briodol, neu fod storfeydd cyffuriau a reolir yn cael eu defnyddio ar gyfer meddyginiaeth arall. (45, 46, 47, 48, 49)

## Arferion Nodedig

Nodwyd nifer o arferion nodedig yn ystod ein harolygiadau. Tynnir sylw at rai o'r rhain isod:

- Mae *Adduned Urddas* yn ddogfen a grëwyd gan rai ardaloedd o'r bwrdd iechyd i hysbysu cleifion ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r adduned yn atgoffa staff o'r angen i gynnal preifatrwydd

ac urddas cleifion yn ogystal â darparu canllawiau ar sut y gellir cyflawni hyn. Rhoddir copi o'r adduned urddas i gleifion pan fyddant yn cael eu derbyn i ward ysbyty.

- Mae ymgyrch *Yfed Diferyn* wedi cael ei gyflwyno mewn ardaloedd clinigol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gefnogi’r broses o sicrhau bod cleifion yn cael cymaint o ddŵr ag sy’n bosibl. Mae hyn yn cydnabod bod diffyg digon o ddŵr i'w yfed yn gallu achosi niwed diangen i gleifion. Mae posteri wedi cael eu gweld mewn ardaloedd wardiau yn atgoffa staff i annog yfed digon o ddŵr, ac mae gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n treulio amser gyda chleifion gynnig 50ml o ddŵr iddynt yn unol â'r fenter hon.
- Mae’r bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r cysyniad o bersona o'r enw *Myfanwy* fel ffordd o drafod llwybrau gofal a llif cleifion yn unol â hynny. Mae'r fenter wedi bod yn llwyddiannus hyd yma yn cyfathrebu negeseuon o arfer nodedig o'r bwrdd i'r ward. Roedd y syniad hwn yn deillio o waith yr Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy sydd wedi tynnu ar brofiadau cadarnhaol a llwyddiant y rhwydwaith *Esther*. Cafodd persona *Esther* ei ddyfeisio gan dîm o feddygon, nyrsys a darparwyr eraill a ymunodd â'i gilydd i wella llif cleifion a chydgysylltiad gofal i gleifion hŷn mewn rhanbarth o chwe bwrdeistref yn Sweden.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar gyfer 2013-2014 yn dangos bod arfarniad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu yn effeithiol. Tynnodd yr asesiad sylw at yr anhawster o ymgorffori arfer da ledled y bwrdd iechyd cyfan.

Cafodd nifer o gamau gweithredu er mwyn gwella eu hamlygu dan y thema *Gosod y cyfeiriad*, gan gynnwys datblygu dangosfwrdd a chryfhau'r system lywodraethu. O ran y thema *Galluogi cyflenwi*, mae'r bwrdd iechyd yn credu bod ganddo drefniadau llywodraethu cymwys ar waith. Nodwyd nifer o gamau gweithredu yn ymwneud ag adolygu'r is-bwyllgorau a datblygu strategaethau ar gyfer gwasanaethau clinigol gwahanol. Yn olaf, roedd *Cyflenwi canlyniadau, cyflawni rhagoriaeth* yn amlygu pwysigrwydd gweithredu'r Strategaeth Ansawdd a'r Cynllun Cyflenwi Ansawdd.

Yn ogystal, casglodd datganiadau o Adroddiad Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru: "Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu, ac mae'n adnabod meysydd sydd angen datblygiad pellach.”

Mae'n bwysig i AGIC ddeall a yw'r canfyddiadau o'n gweithgarwch yn ystod 2014-2015 wedi sbarduno newid, neu a yw camau gweithredu wedi cael eu datblygu fel rhan o raglenni gwaith sy'n bodoli eisoes, ac felly bydd unrhyw newidiadau posibl yn cael effaith ehangach ar y bwrdd iechyd cyfan.

Derbyniodd AGIC hunanasesiad trwyadl a chynhwysfawr iawn oddi wrth Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

## Ymgysylltu

Mae AGIC wedi ymgysylltu â'r bwrdd iechyd ar nifer o achlysuron. Yn ystod 2014-2015, rydym wedi defnyddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i roi prawf ar y Rhaglen Arolygu Meddygon Teulu. Cafodd staff AGIC wahoddiad i fynychu'r Uwchgynhadledd Ansawdd Flynyddol a gynhaliwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 23 Hydref 2014. Yn ogystal, mae'r rheolwr perthynas, Ruth Studley, wedi cwrdd â'r cadeirydd a'r prif weithredwr sawl gwaith, a phrif weithredwr AGIC yn yr un modd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn rhan o'r cysylltiad parhaus gyda'r bwrdd iechyd. Mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb yn brydlon i bob ymholiad.

## Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Yn ystod 2014-2015, dechreuodd AGIC adolygu trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a dechrau gwaith ar ddilyniant i adolygiad llywodraethu 2012.

## Ymweliadau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

**Ymweliadau Dilynol**

Cyhoeddodd AGIC adroddiad yn dilyn pob arolygiad, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys cynllun sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mhob achos, cyflwynodd y bwrdd iechyd a'r practisau gynlluniau gwella prydlon yn nodi eu hymatebion i'r argymhellion ynddynt. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol, a gwelwyd eu bod yn darparu sicrwydd digonol i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi cael sylw neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd a'r practisau mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella. Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd a'r practisau i'w hysbysu o ganlyniad y gwerthusiad hwn.

Cynhaliwyd ymweliad dilynol i bractis deintyddol ym mis Mawrth 2015.

**Sicrwydd ar unwaith**

Mae dau lythyr sicrwydd ar unwaith wedi cael eu cyflwyno. Roedd y ddau i ddeintyddion oedd wedi eu contractio'n annibynnol yn ardal Cwm Taf. Roedd un yn ymwneud ag ailddefnyddio offer deintyddol untro a'r llall yn ymwneud â defnydd o laser heb ei gofrestru. Cafodd AGIC ei sicrhau bod y rhain wedi cael eu hunioni'n brydlon.

## Gweithgarwch Arolygu

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol**

| | |
|---|---|
| 1. Ysbyty Cwm Rhondda | 23 Gorffennaf 2014 |
| 2. Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 10 Medi 2014 |
| 3. Ysbyty'r Tywysog Siarl | 9 Hydref 2014 |
| 4. Ysbyty Cwm Cynon | 22 Tachwedd 2014 |
| 5. Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 14 Ionawr 2015 |
| 6. Ysbyty'r Tywysog Siarl | 11 Mawrth 2015 |

**Arolygiadau Meddygon Teulu** (arolygiadau peilot, heb eu cyhoeddi)

| | |
|---|---|
| 7. Practis Meddygol Morlais | 6 Mehefin 2014 |
| 8. Meddygfa Brookside | 11 Mehefin 2014 |
| 9. The Foundry Town Clinic | 12 Mehefin 2014 |
| 10. Meddygfa Eglwys-bach | 17 Mehefin 2014 |
| 11. Canolfan Gofal Sylfaenol Treharris | 19 Mehefin 2014 |
| 12. Canolfan Feddygol Pont Newydd | 24 Mehefin 2014 |
| 13. New Tynewydd | 26 Mehefin 2014 |
| 14. Meddygfa Ashgrove | 1 Gorffennaf 2014 |
| 15. Meddygfa Forest View | 2 Gorffennaf 2014 |
| 16. Hillcrest Medical | 8 Gorffennaf 2014 |
| 17. Practis Grŵp Parc Canol | 10 Gorffennaf 2014 |

**Arolygiadau Deintyddol**

| | |
|---|---|
| 18. Practis Deintyddol Belgrave (adroddiad peilot, heb ei gyhoeddi) | 20 Awst 2014 |
| 19. L. Roberts a Phartneriaid, Glynrhedynog | 29 Medi 2014 |
| 20. Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail | 11 Tachwedd 2014 |
| 21. Gentle Dental, Aberdâr | 9 Rhagfyr 2014 |
| 22. Practis Deintyddol Paul Edwards | 18 Rhagfyr 2014 |
| 23. Practis Deintyddol Church Street | 27 Ionawr 2015 |
| 24. Deintyddfa Isfryn (Wesley, Blinman a Phartneriaid) | 4 Chwefror 2015 |
| 25. Deintyddfa Llantrisant | 4 Chwefror 2015 |
| 26. Jamie Pugh Dental Healthcare Ltd | 18 Chwefror 2015 |
| 27. Gofal Deintyddol Pearl | 20 Chwefror 2015 |
| 28. United Dental Merthyr | 4 Mawrth 2015 |
| 29. Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail | 5 Mawrth 2015 |
| 30. Croft Practice Limited, Aberdâr | 31 Mawrth 2015 |

**Arolygiadau Deddf Iechyd Meddwl**

| | |
|---|---|
| 31. Ysbyty George Thomas, Ward Dinas | 28 Gorffennaf 2014 |
| 32. Ysbyty George Thomas, Uned Adferiad â Chymorth | 28 Gorffennaf 2014 |
| 33. Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 3 Mawrth 2015 |
| 34. Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 4 Mawrth 2015 |

**Arolygiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)**

| | |
|---|---|
| 35. Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 3 Tachwedd 2014 |

**Ymweliadau Adolygu gan Gymheiriaid**

| | |
|---|---|
| 36. Lower GI | 22 Mai 2014 |
| 37. Pen a'r Gwddf | 24 Medi 2014 |
| 38. Gynaecolegol | 12 Ionawr 2015 |

## Gofal Iechyd Annibynnol

**Arolygiadau Deddf Iechyd Meddwl**

| | |
|---|---|
| 39. Ysbyty The Priory, Pentre'r Eglwys | 15 Ebrill 2014 |
| 40. Heatherwood Court x 3 | 8 Gorffennaf 2014 |
| 41. The Priory, Ysbyty Aberdâr | 18 Awst 2014 |
| 42. Tŷ Pinewood | 27 Awst 2014 |
| 43. Tŷ Cwm Rhondda | 9 Mawrth 2015 |
| 44. Tŷ Cwm Rhondda | 9 Mawrth 2015 |

**Arolygiadau Uned Iechyd Meddwl**

| | |
|---|---|
| 45. Ysbyty The Priory, Pentre'r Eglwys | 15 Ebrill 2014 |
| 46. Heatherwood Court | 8 Gorffennaf 2014 |
| 47. The Priory, Ysbyty Aberdâr | 18 Awst 2014 |
| 48. Ysbyty The Priory, Pentre'r Eglwys | 2 Medi 2014 |
| 49. Pastoral Cymru (Rhondda Care Group) Ltd: Tŷ Cwm Rhondda | 9 Mawrth 2015 |

**Clinig colli pwysau**

| | |
|---|---|
| 50. Canolfan Meddygol Albany, Pontypridd | 7 Gorffennaf 2014 |

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015